# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 10fed o Ionawr 2017
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Wyn Jones (Cadeirydd), Gerallt Davies, Carys Morgan, Ruby Williams, Wyn Evans, Garym Roberts a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol John Lumley a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Jocelyn Andrew ac Eiddwen Merritt.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Rhagfyr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

i. Cafwyd gadarnhad fod Gari Jones o Adran Strategaeth Cludiant yn dod i siarad â ni ynglyn â Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau yn ymwneud â Rhiwgoch.
ii. Derbynwyd ebost oddiwrth yr Uwch-beiriannydd Rheoli Traffig yn ateb ein cais i gael marciau ar gyffyrdd sydd ar y ffordd i Ffynnon Las. Nid oedd yn bosib achos eu bod yn heolydd preifat.

**Talu anfoneb:**

Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad o Gyfrifion - £141.00.

**Materion Cynllunio**

Rhif Cais: A161172.
Ysgol Gynradd Llwyncelyn
Newid defnydd yr ysgol i dŷ llety.
Dim gwrthwynebiad.

**Panel Annibynnol Cymru**

Derbynwyd lythyr o wahoddiad i drafodaeth yn ymwneud â fframwaith Cynghorau Cymuned.

**Trefniadau'r Praesept 2017/2018.**

Penderfynwyd i godi praesept o £5500.00 ar Gyngor Sir Ceredigion eleni.

**Radio Beca**
Cyflwynwyd Brosbectws Radio Beca oedd yn crynhoi uchafbwyntiau o weithgarwch Radiobeca dros y 18 mis diwethaf hefyd danfonwyd wahoddiad i un o'u cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn ystod y mis.
**Unrhyw Fater Arall**
Penderfynwyd i gael ein cinio blynyddol ar y 18fed o Chwefror a gofynwyd i'r clerc i wneud ymholiadau i'r Blue Bell, Cei Newydd.

Cafwyd gyflwyniad ac esboniad drylwyr oddiwrth Gari Jones, Adran Strategaeth Cludiant Cyngor Sir Ceredigion ynglyn a'r cais am grant y byddant yn cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y mis i gael palmant lawr Rhiwgoch. Os y bydd yn llwyddiannus penderfynodd y pwyllgor y byddant yn fodlon rhoi cyfraniad o £3000 tuag at y prosiect yn y flwyddyn gyntaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Bydd y cyfarfod nesa' ar y 14eg o Chwefror.